-----------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus -----------------------

# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Hybrid, Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru


**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## Cofrestru a rhag-gyfarfod

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ymchwiliad undydd i dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau

(09.30-10.20) (Tudalennau 1 - 19)

Christopher Catling, Yr Ysgrifennydd (Prif Swyddog Gweithredol), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

David Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Nest Thomas, Llywydd, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Sharon Heal, Cyfarwyddwr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd

## Egwyl

(10.20-10.30)

## 3 Ymchwiliad undydd i dreftadaeth, amgueddfeydd ac archifau

(10:30-11.20)

David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Neil Wicks, Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Owain Roberts, Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Egwyl

(11.20-11.30)

## 4 Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru: cyflawni prosiectau ar y cyd

(11.30-12.10)

David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Rebecca Nelson, Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Cyfrifyddu, Cyngor Celfyddydau Cymru

Diane Hebb, Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru

## 5 Papurau i’w nodi

### 5.1 Ymateb gan y Prif Weinidog ynghylch cysylltiadau rhyngwladol

(Tudalennau 20 - 23)

### 5.2 Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip: y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwylliant a'r celfyddydau

(Tudalennau 24 - 29)

**5.3 Galwad am wybodaeth gan Banel Cydnabyddiaeth y Wasg (Press Recognition Panel) ynghylch rheoleiddio'r wasg yn y Deyrnas Unedig**

(Tudalen 30)

**5.4 Ymateb gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 31 - 35)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.10-12.30)

**7.1 Gohebiaeth ddrafft at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: i'w thrafod**

(Tudalennau 36 - 37)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

01 Tachwedd 2021

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Hydref a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth am ein gwaith cysylltiadau rhyngwladol yn dilyn eich sesiwn gyda'm swyddogion ym mis Medi.

Strategaeth Ryngwladol, Cynlluniau Gweithredu a Swyddfeydd Tramor

Mae'r penderfyniad i symud Cysylltiadau Rhyngwladol i bortffolio'r Prif Weinidog yn caniatáu imi arwain o ran cyflawni ein gwaith rhyngwladol ar draws y llywodraeth. Mae gennyf adran bwrpasol sy'n goruchwylio'r broses o gyflawni ein gwaith rhyngwladol fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Ryngwladol. Mae'r adran yn datblygu ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol drwy'r gweithgarwch a nodir yn ein cynlluniau gweithredu. Mae'n cyflawni ein gweithgarwch Cymru ac Affrica dan arweiniad y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n cefnogi allforwyr Cymru, yn gweithio gyda mewnfuddsoddwyr ac yn datblygu polisi masnach effeithiol i Gymru o dan Weinidog yr Economi. Mae'r adran hefyd yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru mewn meysydd fel Newid Hinsawdd, Addysg, Gwyddoniaeth ac Arloesi, Digwyddiadau Mawr, Diwylliant, Chwaraeon, y Gymraeg a Chyfathrebu i gefnogi eu gwaith rhyngwladol lle bo hynny'n briodol. Mae ein holl waith trawslywodraethol yn cael ei ddwyn ynghyd drwy'r cynlluniau gweithredu a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2020 ac sy'n rhoi mwy o fanylion am y gweithgarwch cyflawni a geir yn y Strategaeth Ryngwladol.

Mae pob un o'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys cyfres o amcanion tymor byr a thymor hir sy'n cynnwys cymysgedd o ganlyniadau gweladwy ac anweladwy. Pan fo canlyniadau'n weladwy, megis ein huchelgais i greu rhwydwaith byd-eang o 500,000 o Gymry ar wasgar, mae targedau mesuradwy ar waith ar adegau allweddol drwy gydol oes pum mlynedd y Strategaeth Ryngwladol. Mae gennym hefyd ddangosyddion perfformiad allweddol ar waith gyda phartneriaid cyflenwi trydydd parti lle bo hynny'n berthnasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf gais y Pwyllgor am adroddiad blynyddol mewn perthynas â gweithgarwch ein Rhwydwaith Tramor a bydd fy swyddogion yn darparu'r wybodaeth hon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cyllidebau

Ceir amlinelliad o'r gyllideb a ddyrannwyd i ariannu ein gweithgarwch Ymgysylltu Rhyngwladol ers 2016-17 isod:

| **Blwyddyn** | **Cyllideb** |
|---|---|
| 2016-17 | £390,000 |
| 2017-18 | £410,000 |
| 2018-19 | £355,000 |
| 2019-20 | £920,000 |
| 2020-21 | £1,848,000 |
| 2021-22 | £3,220,000 |

Y rheswm dros y cynnydd mewn cyllid yn 2020-21 a 2021-22 oedd cynnydd yn y gyllideb y cytunwyd arni fel rhan o'r Strategaeth Ryngwladol.

Caiff hyn ei rannu ymhellach am y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf yn ôl cynllun gweithredu, a gweithgarwch trawsbynciol, fel a ganlyn:

| | **2020-21** | **2021-22** |
|---|---|---|
| Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth | £30,000 | £100,000 |
| Diplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Tawel | £1,274,000 | £1,332,000 |
| Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar | £180,000 | £260,000 |
| Cymru ac Affrica – cyfraniad at gyllideb Cymru ac Affrica ar wahân i ddarparu cymorth ychwanegol i raglen Plannu Coed Mbale Maint Cymru – ymrwymiad yn y Strategaeth Ryngwladol. | £350,000 | £350,000 |
| Gweithgarwch trawsbynciol | £14,000 | £1,178,000 |
| **Cyfanswm** | **£1,848,000** | **£3,220,000** |

Mae'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol yn ariannu gweithgarwch gan gynnwys ymgysylltu dwyochrog, Dydd Gŵyl Dewi, dathliadau rhyngwladol fel Diwali, digwyddiadau rhyngwladol mawr (e.e. Expo y Byd, Cwpan Rygbi'r Byd), mentrau fel ein rhaglen Cymru yn yr Almaen 2021, marchnata, cyfathrebu a'n contractau Cymry ar wasgar. Mae ein rhwydwaith o swyddfeydd tramor yn cefnogi'r gweithgarwch hwn, yn ogystal â'r tîm Cysylltiadau Rhyngwladol yng Nghymru sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Cymru ac Ewrop

Mae'r berthynas â'r UE yn parhau i esblygu ar ôl Brexit ac, er ein bod yn parhau i ystyried yr hyn y mae Cymru'n dymuno ei gyflawni drwy ei hymgysylltiad Ewropeaidd, mae'r cyd-destun hefyd yn esblygu gan ystyried anawsterau sy'n parhau o ran y berthynas rhwng yr UE a'r DU. Edrychaf ymlaen at ffordd o weithio sy'n ystyriol, yn ymgysylltiedig ac yn bwrpasol gan Lywodraeth y DU, yn enwedig ynghylch y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA). Fodd bynnag, hyd nes y caiff hyn ei ddatrys yn well a bod perthynas sefydlog rhwng yr UE a'r DU, ni fydd gennym y sylfaen allweddol sydd ei hangen ar gyfer

gweithio mewn ffordd strategol. Serch hynny, credaf ei bod yn ddefnyddiol bod yn glir ynglŷn â beth yw egwyddorion a diben ein hymgysylltiad Ewropeaidd, a pharhau i ddatblygu'r rhain mewn ffordd dryloyw a phendant. Mae ein ffordd o weithio yn cael ei rheoli drwy gydnabod yr angen am waith ymgysylltu cadarnhaol ag Ewrop, ar sail yr egwyddorion ac am y rhesymau a nodir yn fy llythyr i Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd Ursula Von der Leyen ym mis Ionawr 2021. Fel y dywedais yn y llythyr, rwyf am i Gymru "chwarae rôl adeiladol fel pont rhwng yr UE a'r rhai yn y DU sy'n parhau i gael eu harwain gan yr egwyddorion cadarn sydd wedi helpu i sefydlu a datblygu llunio polisïau'r UE, yn ogystal â'n rhai ni."

Mae'r berthynas rhwng yr UE a'r DU yn parhau i esblygu. Felly, bydd ein gwaith ymgysylltu â'r sefydliadau yn y dyfodol hefyd yn esblygu, yn enwedig y ffordd y mae Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithio gyda'r pwyllgorau arbenigol, ac endidau tebyg, a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn cadw cysylltiad ffurfiol â sefydliadau lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol; ond hefyd gyda'r unigolion sy'n ffurfio'r sefydliadau hynny fel ASEau, swyddogion unigol a chynrychiolwyr Llywodraethau ym Mrwsel. Bydd penodi Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop cyn hir, a hysbysebwyd yn ddiweddar, yn ychwanegu dimensiwn ychwanegol cadarnhaol a sylweddol at hyn.

## COVID-19

Datblygwyd y cynlluniau gweithredu, sy'n cefnogi'r Strategaeth Ryngwladol, yn erbyn cefndir o bandemig COVID-19 ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020. Fe'u datblygwyd gan gadw COVID-19 mewn cof, ac maent yn ystyried y cyfyngiadau a osodir arnom o ran teithio a chyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n gysylltiedig â datblygu ein cysylltiadau rhyngwladol.

Mae'r pandemig wedi arwain at newid i gyfathrebu digidol yn gyntaf yn y maes rhyngwladol. Ers mis Mawrth 2020, rydym wedi llwyddo i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu digidol, gan gynnwys blwyddyn thema Cymru yn yr Almaen 2021, Diwali 2020 a digwyddiadau digidol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r ffordd hon o weithio wedi ein galluogi i ymgysylltu â mwy o bobl yn rhyngwladol ac wedi lleihau rhwystrau i ymgysylltu, megis cost ac amser i deithio. Mae'r profiad hwn wedi bod yn werthfawr a bydd yn cael effaith barhaol ar y ffordd rydym yn gweithio – digwyddiadau hybrid fydd y dyfodol, gan ddarparu profiadau atyniadol i gynulleidfaoedd digidol ac wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, mae hefyd wedi bod yn glir iawn yn ystod y cyfnod hwn bod cyfarfodydd a digwyddiadau wyneb yn wyneb yn dal yn bwysig i ddyfnhau ein cysylltiadau presennol a meithrin rhai newydd. Ni ellir disodli'r manteision hyn drwy waith ymgysylltu digidol yn unig – ac o ganlyniad i hynny mae ein swyddfeydd tramor yn parhau i fod yn bwysig.

## Meysydd Eraill


Mae'r blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith rhyngwladol trawsbynciol wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Gweithredu Cysylltiadau Rhyngwladol drwy Ddiplomyddiaeth Gyhoeddus a Chymell Tawel a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gwaith gan ddefnyddio Chwaraeon, Diwylliant a'r Gymraeg fel modd o ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol yn ogystal â'r gwaith cyfathrebu a'r brandio a ddefnyddir i ehangu ein negeseuon. Mae'r pandemig COVID-19 parhaus yn dal i fod yn gwbl flaenllaw i'n ffordd o weithio o ran ymgymryd â'n gweithgarwch rhyngwladol. Lle bo angen, byddwn yn addasu ein ffordd o weithio i ystyried unrhyw gyfyngiadau a osodir arnom naill ai yma yng Nghymru neu dramor.

Cyhoeddwyd adroddiad Mynegai Brand Cenhedloedd (NBI) Anholt Ipsos 2020 ym mis Medi 2021 ac mae'n asesiad o enw da Cymru yn rhyngwladol ac yn ddomestig. 2020 oedd y flwyddyn gyntaf i Gymru gymryd rhan yn yr NBI felly mae hyn yn gosod y llinell sylfaen ar gyfer unrhyw arolygon ac astudiaethau yn y dyfodol.

Cyfarfodydd y Dyfodol

Yn olaf, nodaf y rhestr o ddyddiadau yr ydych wedi'u darparu er mwyn hwyluso fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor. Bydd fy Ysgrifennydd Dyddiadur yn ymateb maes o law.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

20 Hydref 2021

Annwyl Delyth

**Sesiwn graffu Gweinidogol: Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion a drafodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar. Mae'r llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth ychwanegol yr ydych wedi'i cheisio o dan yr un is-benawdau perthnasol.

**Dosbarthu cyfrifoldebau Gweinidogol**

Rydych wedi gofyn am ddosbarthiad cyfrifoldebau o fewn y portffolio. Mae llawer o'r materion sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor yn draws-bortffolio neu'n drawslywodraethol eu natur ac mae angen dull hyblyg o weithredu. Nid oes gan y Prif Weinidog unrhyw gynlluniau i gyhoeddi dadansoddiad manylach o gyfrifoldebau portffolio

Gofynnwyd hefyd gennych sut y bydd ein meysydd portffolio yn cyfrannu at nod lles iaith Gymraeg ffyniannus, ac o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn parhau i fod yn faes ffocws ac rydym yn disgwyl i'r Gymraeg gael ei gwreiddio'n drwyadl ym mhopeth a wnawn, gan ddathlu dwyieithrwydd a galluogi pobl Cymru i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn hysbys yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth, a byddwn yn diweddaru cynllun gweithredu Cymraeg 2050 ar gyfer y strategaeth, ond bydd y tair prif thema yn parhau – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu.

Un enghraifft o hyn yw'r gweithgaredd a gyflwynir drwy Cymru Greadigol sydd hefyd yn cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg. Mae cefnogaeth i'r diwydiant cyhoeddi drwy Gyngor Llyfrau Cymru yn cynnwys buddsoddi yn yr iaith Gymraeg drwy gyhoeddi grantiau, cyflwyno'r tendr ar gyfer gwasanaeth newyddion digidol y Gymraeg, cyfres dysgwyr, llwyfannau dwyieithog, a'r sianel #lovereading ar blatfform AM. Mae ein darlledwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy wasanaethu anghenion cynulleidfaoedd Cymraeg a darparu adnoddau addysgol i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rydym yn ei ddatblygu gydag S4C yn nodi cyfleoedd i gryfhau ein gwaith partneriaeth yn y maes hwn. Dyma rai enghreifftiau yn unig o sut mae'r portffolio hwn yn cyfrannu at y targed hwn.

**Dull strategol o ymdrin â diwylliant**

Fel y nodwyd gennym yn sesiwn y Pwyllgor, byddwn yn canolbwyntio am y tymor hwn ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar draws y portffolio hwn ac mae hyn yn sail i'n dull strategol o weithio.

Gofynnwyd yn benodol gennych hefyd am y strategaeth Digwyddiadau Mawr. Cafodd *Digwyddiadau Cymru: Strategaeth digwyddiadau mawr i Gymru 2010-2020* ei lansio yn syth ar ôl i Gymru gynnal Cwpan Ryder 2010 yn llwyddiannus. Yn dilyn y llwyddiant wrth gyflawni'r strategaeth honno, rydym bellach yn ystyried amcanion strategol yn y dyfodol. Roeddem wedi gobeithio dechrau hyn yn 2020 ond bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r ymateb i'r pandemig.

O ran Twristiaeth, cyhoeddwyd y Cynllun Adfer Twristiaeth ("Dewch inni Lunio'r Dyfodol") yn gynharach eleni.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

Gofynnwyd inni am ein nodau a'n cynlluniau o dan nifer o'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Gan ddefnyddio eich trefn o holi, rydym yn cynnig y sylwadau canlynol:

*Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd*.

Bydd gwaith yn y maes hwn yn flaenoriaeth ar gyfer tymor cyfan y llywodraeth. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cychwynnol. Er enghraifft, yn gynharach y mis hwn, cytunwyd ar gyllid o £98k i gefnogi'r sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Bydd yr arian hwn yn sefydlu gwell dealltwriaeth o'r casgliadau a gedwir gan amgueddfeydd ledled y wlad, a'r hanesion ethnig amrywiol y maent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn ein galluogi i nodi'n glir y bylchau mewn cynrychiolaeth, a chefnogi ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau amrywiol i ddechrau mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

*Creu Cronfa Ymchwil a Datblygu'r Diwydiant Creadigol*

Rydym wedi cefnogi ymchwil a datblygu yn y diwydiannau creadigol drwy:

• Darparu Cronfa Teledu a Datblygu Digidol Cymru Greadigol;
• Cefnogi ymchwil a datblygu yn y rhaglen Cryfder mewn Lleoedd;
• Gwneud cais i'r BFI am gyllid ar gyfer cynllun peilot arloesol i fapio cynaliadwyedd y diwydiant sgrin

Byddwn yn archwilio opsiynau i gefnogi ymchwil a datblygu ymhellach yn y diwydiannau creadigol yn 2022/23, gan gynnwys yr angen am Gronfa Ymchwil a Datblygu, yng nghyd-destun gweithgarwch sy'n bodoli eisoes.

*Sefydlu gwasanaeth cerddoriaeth*

Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei arwain gan yr Adran Addysg ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda nhw.

*Buddsoddi yn Theatr Clwyd*

Mae swyddogion wrthi'n adolygu'r achos busnes amlinellol terfynol a ddatblygwyd gan Theatr Clwyd a byddant yn gallu diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol ar ôl i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gael ei gwblhau.

*Sefydlu Amgueddfa Bêl-droed i Gymru*

Rydym yn gweithio gyda dylunwyr Amgueddfa Wrecsam i gwblhau'r achos busnes amlinellol a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol ar ôl i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gael ei gwblhau.

*Sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol*

Mae digideiddio'r Casgliad Celf Cenedlaethol, cam cyntaf allweddol tuag at gyflawni'r prosiect hwn, yn mynd rhagddo'n gyflym gyda nifer fawr o eitemau eisoes wedi'u cipio. Yn ystod y pandemig, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed i ddigideiddio'r casgliad, roeddem yn gallu cyhoeddi detholiad o gelfyddyd gyfoes, a ddewiswyd gan Staff y GIG i nifer o wahanol leoliadau ysbyty gan gynnwys canolfannau brechu ac mae wedi darparu cymorth gweledol gwerthfawr i annog cleifion sy’n gwella i symud.

*Diweddariadau*

Nodwn eich cais am ddiweddariadau chwarterol ar gynnydd gydag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am gynnydd ond awgrymwn y darperir hyn unwaith y tymor fel bod y ffocws yn parhau ar bwysigrwydd cyflawni'r mentrau hyn, nid adrodd arnynt. Ar y sail hyn, byddwn yn anelu at ddarparu ein diweddariad ffurfiol cyntaf erbyn diwedd Mis Ionawr 2022.

**Statws Treftadaeth y Byd UNESCO ac Amgueddfa i Ogledd Cymru**

Mae'r Pwyllgor wedi codi sawl pwynt am ein Safle Treftadaeth y Byd diweddaraf a chynlluniau ar gyfer safleoedd treftadaeth y byd eraill yng Nghymru.

*Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru*

Mae'r arysgrif o'r Dirwedd Lechi ar restr Safle Treftadaeth y Byd gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn llwyddiant mawr i dreftadaeth Cymru.

Mae'r Bartneriaeth Llechi sy'n gyfrifol am yr enwebiad bellach wedi ad-drefnu'n strwythur llywodraethu diwygiedig i weithredu'r cynllun rheoli a luniwyd i gyd-fynd â'r enwebiad. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd, Grŵp Llywio a grwpiau thematig sy'n canolbwyntio ar gadwraeth, ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu economaidd a fydd yn bwrw ymlaen â'r camau i sicrhau bod Safle Treftadaeth y Byd yn cyflawni'r ymrwymiadau a fydd o fudd i gymunedau lleol yn y rhanbarth.

Mae'r camau gweithredu craidd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:
• cwblhau dynodiad asedau hanesyddol
• paratoi cynlluniau rheoli unigol ar gyfer pob elfen hanesyddol
• mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol drafft

• cwblhau prosiect ymgysylltu cymunedol LleChi a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Mae'r tri Safle treftadaeth y Byd sy'n weddill – Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Cestyll a muriau tref Edward I yng Ngwynedd a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte eisoes wedi datblygu Cynlluniau Rheoli a strwythurau llywodraethu.

*Amgueddfa Gogledd Cymru*

Mae Amgueddfa Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i gynnal astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas ag ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio gofynion gofodol, y weledigaeth ar gyfer yr amgueddfa bresennol ac ar gyfer y safle ehangach. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £0.5m o gyllid i gefnogi'r cam hwn o'r gwaith, y bwriedir ei gwblhau ym mis Ionawr 2022.

**Cymru Hanesyddol**

Mae partneriaeth Cymru Hanesyddol wedi darparu fforwm defnyddiol ar gyfer edrych ar y cydweithio rhwng y pedwar sefydliad sy'n aelodau ac mae rhai mentrau pwysig wedi'u cychwyn megis:
• y bartneriaeth rhwng yr Amgueddfa Genedlaethol a Cadw yng Nghaer Rufeinig Caerllion
• cynllun gweithredu i ddeall a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau ar draws y bartneriaeth.
Mae'r pandemig wedi arwain at oedi dealladwy ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i fyfyrio. Daeth yr uwch dimau at ei gilydd yn ddiweddar mewn gweithdy i ystyried sut y gall y bartneriaeth adeiladu ar gyfleoedd a nodwyd a mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol.

Rydym yn cadarnhau nad oes unrhyw gynlluniau i gyfuno unrhyw un o'r sefydliadau partner yn ystod tymor presennol y Senedd.

**Cymru Greadigol**

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth benodol am wahanol agweddau ar waith Cymru Greadigol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

*Strategaeth Teledu a Ffilm*

Ers lansio Cymru Greadigol ym mis Ionawr 2020, canolbwyntiwyd ar arwain y sector drwy'r pandemig. Mae Cymru Greadigol yn:

• gweithio gyda diwydiant drwy ei grwpiau rhanddeiliaid a Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y sector sgrin, i'w gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
• ailgynllunio ei gyllid cynhyrchu fel ei fod yn diwallu anghenion y sector yn well ac yn cyd-fynd ag ymrwymiadau newydd y Rhaglen Lywodraethu.
Mae Cymru Greadigol wedi parhau i gefnogi'r sector yn ystod y cyfnod hwn, drwy gyllid cynhyrchu a chynlluniau ariannu datblygu. Ers lansio Cymru Greadigol, mae 33 o brosiectau wedi'u cymeradwyo gyda lefel dyfarniad cysylltiedig o £9.5m. Ymhelaethir ymhellach ar hyn wrth ystyried buddsoddiad pellach gan y sector preifat sy'n dod yn rhan o gytundebau.

*Corff Sgiliau Creadigol Cymru*

Mae ein Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 16 Medi yn nodi ein dull o gyflwyno'r Corff Sgiliau Creadigol yn fewnol drwy Cymru Greadigol o fewn chwe mis.

Bydd darparu'r Corff Sgiliau Creadigol fel hyn yn adeiladu ar y gwaith sgiliau sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan Cymru Greadigol ac yn sicrhau y bydd adnoddau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gefnogi mentrau sgiliau creadigol a doniau yng Nghymru, yn hytrach na chael eu gwario ar gostau sefydlu sefydliad newydd.

Mae rhagor o waith ar y gweill i gytuno ar y trefniadau cyflawni manwl ar gyfer y Corff Sgiliau Creadigol a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.
*Dull strategol o ymdrin â newyddiaduraeth yng Nghymru*

Gofynnodd y Pwyllgor rai cwestiynau am ariannu a didueddrwydd newyddiaduraeth newyddion i Gymru:

• Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sefydliadau'r cyfryngau drwy amrywiaeth o fecanweithiau. Dyfarnwyd cyllid wedi'i dargedu'n benodol at sefydliadau newyddion, drwy'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol (ICJF), i gyhoeddiadau sy'n aelodau o'r ICNN (Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddiadau gadw at safonau fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Golygyddion.

• Lle caiff sefydliadau'r cyfryngau eu cefnogi gan gyllid traws-economi, megis Cronfa Adfer Economaidd Llywodraeth Cymru, disgwylir i sefydliadau gydymffurfio â thelerau ac amodau safonol y grant.

• Mae Cymru Greadigol yn archwilio opsiynau pellach i dargedu arian cyhoeddus i gefnogi cynnydd yn y sylw a roddir i newyddion, ar sail hyd braich, ac wedi neilltuo £100,000 o gyllideb Cymru Greadigol ar gyfer hyn.

• Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu datblygu gyda'n partneriaid a byddant yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod safonau didueddrwydd yn cael eu bodloni gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid.

• Fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn sefydlu Gweithgor Newyddiaduraeth Er Budd y Cyhoedd Cymru, gan weithio gydag Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, i ddwyn ynghyd ystod o randdeiliaid o ddiwydiant, undebau, darlledwyr a'r byd academaidd i ddarparu argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â'r sector newyddiaduraeth i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru.

**Chwaraeon a hamdden**

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau ar gyfer Chwaraeon a Hamdden.  Mae chwaraeon yn hanfodol bwysig i'n heconomi, ein hiechyd a'n lles ac yn gyffredinol i'n hunaniaeth genedlaethol. Mae un o'n deg amcan llesiant yn cynnwys galluogi'r diwydiant chwaraeon i ffynnu, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro mai ein hymrwymiadau penodol ar gyfer chwaraeon yw:

• Hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau ar lawr gwlad;
• Buddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o safon uchel; a
• Buddsoddi mewn cyfleusterau newydd fel caeau 3G.

Drwy Chwaraeon Cymru rydym yn buddsoddi mewn amrywiol fentrau i gyflawni ein nod cyffredin o gymryd mwy o ran mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn cyfleusterau modern, hygyrch a deniadol sy'n annog pobl o bob oed a gallu – boed ar lefel gymunedol neu elitaidd – i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gwyddom o ymchwil a wnaed gan ComRes ar ran Chwaraeon Cymru fod angen i ni wneud mwy i ddeall yn well sut i gefnogi grwpiau penodol i fod yn fwy egnïol yn gorfforol a mwynhau manteision chwaraeon. Mae cynyddu cyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol yn allweddol i sicrhau bod ein dinasyddion yn iach. Ategir hyn gan ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Yn ystod y tymor hwn o Lywodraeth byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i greu amgylchedd lle mae'n arferol ac yn hawdd bod yn gorfforol egnïol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**<u>Llythyrau cylch gwaith ar gyfer cyrff a noddir</u>**

Yn olaf, gan droi at lythyrau cylch gwaith ar gyfer ein cyrff a noddir, bydd y rhain yn cynnwys ffocws ar ehangu mynediad a chyfranogiad, ac mae'r prif gyflawniadau yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau fel y'u cyhoeddwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Unwaith y bydd y llythyrau cylch gwaith yn cael eu cyhoeddi, bydd cyrff a noddir yn gweithio i adlewyrchu'r prif gyflawniadau yn eu cynlluniau gweithredol. Cytunir ar dargedau gyda swyddogion a bydd cynnydd yn erbyn y prif gyflawniadau yn cael eu monitro fel rhan o gyfarfodydd monitro chwarterol.

Byddem yn hapus i rannu fersiynau terfynol y llythyrau cylch gwaith gyda'r Pwyllgor ar ôl i'r rhain gael eu cyhoeddi.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i chi.

Yn gywir





**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip

Eitem 5.3

# Share your views on press regulation

I am writing to inform you that the Press Recognition Panel (PRP) has launched a public call for information to gather views on press regulation in the UK.

The PRP was created in 2014 following the Leveson Inquiry into the culture, practices, and ethics of the press in the light of criminal activity by some news publishers, including phone hacking.

The PRP is part of the system of regulatory oversight intended to protect the interests of the public and provide access to redress for journalistic malpractice whilst also ensuring the freedom of the press.

Our Royal Charter requires us to report annually on how well the system is working. In producing our independent report, we would like to consider the full range of perspectives of people interested in and affected by our work.

Please see our Call for Information document for further information.

The call for information closes on 3 December 2021. I hope you will share your views with us.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eitem 5.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/JMEWL/2934/21
Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/2934/21

Tachwedd 2021

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 29 Medi lle buom yn trafod fy mhortffolio. Yn eich llythyr, rydych yn holi am ragor o wybodaeth am rai meysydd ac mae'n bleser gen i gyflwyno'r wybodaeth honno isod.

**Pasbortau brechlyn**

Rydych wedi holi am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran sicrhau bod y Pàs COVID-19 ar gael yn Gymraeg a bod y broses electronig o wneud cais am un ar gael yn ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio gydag NHS X er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaeth digidol ar gael i'n dinasyddion fel y gallant arddangos eu statws brechu COVID-19 a chanlyniadau profion COVID-19 lle bo angen. Lansiwyd y pàs COVID yn ddwyieithog ar 15 Hydref 2021, sy'n golygu y gall pobl arddangos eu statws brechu a chanlyniadau profion COVID-19 ar y sgrin yn ddwyieithog, neu gynhyrchu pàs dwyieithog i'w lawrlwytho neu i'w argraffu fel pdf dwyieithog. Yn gynnar yn 2022, byddwn hefyd yn dechrau ar waith sylweddol i ymchwilio i system mewngofnodi'r GIG, er mwyn datblygu'r swyddogaeth hon yn ddwyieithog law yn llaw â gwaith datblygu ap newydd i'r GIG yng Nghymru, a fydd yn ddwyieithog o'r dechrau'n deg.

**Dysgu ar-lein**

Rydych wedi gofyn am wybodaeth am ffigurau dysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan) a ffigurau ar gyfer y rhai sy'n defnyddio ap *Say Something in Welsh* a *Duolingo*.

Yn ôl cyhoeddiad data diweddaraf y Ganolfan ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/2020, roedd ganddynt 17,505 o ddysgwyr unigryw. Mae 85% o ddarpariaeth y Ganolfan ar hyn o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryd yn digwydd ar-lein, naill ai drwy ddosbarthiadau rhithiol, drwy gyrsiau hunan-astudio neu gyfuniad o’r rhain. Bydd y cyhoeddiad data nesaf ar gael ar 31 Mawrth 2022.

Nid oes gwybodaeth gennym am nifer defnyddwyr *Say Something in Welsh*, ond bydd 2,000 o ddysgwyr sy’n dilyn cyrsiau’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eleni yn derbyn darpariaeth *Say Something Welsh* am ddim i gefnogi eu dysgu. Mae *Duolingo* yn adrodd bod 276,080 o ddefnyddwyr actif yn defnyddio’r ap i ymarfer eu Cymraeg yn y Deyrnas Unedig (476,000 yn fyd-eang). Yn 2020, y Gymraeg oedd yr iaith a dyfodd fwyaf o ran poblogrwydd ar *Duolingo* yn y Deyrnas Unedig – cynnydd o 44% ar y defnyddwyr o’i gymharu â 2019. Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi lansio partneriaeth newydd gyda *Duolingo* fel y gellir defnyddio’r ap i ategu’r dysgu yn y dosbarth, ac i ddenu mwy i ddod i wersi Cymraeg.

Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg lle ceir trafferthion o ran mynediad digidol. Rydych hefyd yn holi am ragor o wybodaeth am yr hyn a nodwyd gennym yn ein hymateb i'r adroddiad ar effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg, lle buom yn sôn am y camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael mynediad at rwydweithiau digidol a chodi sgiliau digidol, mewn ymateb i'r ail argymhelliad ar 'Gynhwysiant Digidol'.

Diolch i gymorth y Llywodraeth, mae nifer o raglenni eisoes ar waith i ehangu mynediad digidol yng Nghymru, gan gynnwys rhaglenni band-eang, a rhai i gynyddu sgiliau digidol. Byddwn yn parhau â’n hymdrechion i ehangu mynediad at dechnoleg dros gyfnod ail *Raglen Waith Cymraeg 2050 o 2021-26*. Rydym hefyd wedi cyhoeddi *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg: adroddiad cynnydd 2020* sy’n manylu ar y cydrannau a fydd yn cynyddu ymhellach y defnydd o’n hiaith ym myd technoleg. Rydym hefyd wrthi’n defnyddio a datblygu systemau caffael sy’n gyrru’r farchnad am feddalwedd ddwyieithog sy’n cynnig profiad da i’r defnyddiwr Cymraeg ei iaith.

**Defnydd Cymunedol o'r Gymraeg**

Rydych yn holi am ragor o wybodaeth am ein hymrwymiad yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26* i ‘*sefydlu a chefnogi comisiwn i gryfhau sefyllfa’r Gymraeg fel iaith gymunedol*’.

Fy mwriad yw penodi Cadeirydd i’r comisiwn erbyn Ionawr 2022. Pwysleisiaf nad sefydliad brics a morter mo’r comisiwn, ond grŵp o arbenigwyr a chanddynt yr arbenigedd i’m cynghori i fwrw ein hagenda gymunedol ar gyfer y Gymraeg yn ei blaen. Mae’r sefydlu comisiwn yn un o argymhellion adroddiad Dr Simon Brooks *Ail Gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru*. Bydd y comisiwn yn edrych yn benodol ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Amlygodd Dr Brooks yn ei adroddiad fod ardaloedd Cymraeg traddodiadol yn rhannu nodweddion sosio-economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, ac yn hynny o beth yn rhannu yr un heriau o safbwynt eu cynaladwyedd hirdymor. Fy mwriad yw bod y comisiwn yn edrych yn fanwl ar nifer o feysydd a all effeithio neu fod yn fygythiad i gymunedau ble mae canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth fanylach am waith y comisiwn maes o law.

**Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg Arfaethedig**

Roedd gennych chi ddiddordeb clywed mwy am y Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg arfaethedig.

Dylai pob plentyn sydd am fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg allu gwneud hynny – waeth ble maen byw yng Nghymru. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn bodloni'r bwriad polisi hwn. Fodd bynnag, rydym ni'n ymwybodol o enghreifftiau sy'n dangos nad oes yna fynediad cyfartal i addysg Gymraeg bob amser, gyda rhwystrau cyffredin yn codi fel y pellter o gartref plentyn a hygyrchedd cludiant i ysgol arall os nad oes lle yn yr ysgol Gymraeg agosaf. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar eu polisi cludiant yn unol â'r Mesur Teithio Dysgwyr 2008.

Rydym ni eisoes wedi cymryd camau pwysig yn y maes hwn. Rydym wedi cryfhau'r is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan awdurdodau lleol drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r CSCA yn gosod uchelgais glir i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn bodloni'r disgwyliad.

Rydw i'n awyddus i archwilio beth arall allwn ni ei wneud yn y maes hwn. Rydym ni wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor y Senedd hwn i sicrhau y gall unrhyw ddysgwr mewn unrhyw ran o Gymru gael ei ddymuniad i gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targedau yn *Cymraeg 2050*. Mae hyn yn ysbryd, ac yn adeiladu ar, Cwricwlwm newydd Cymru.

Rydw i hefyd yn awyddus i sicrhau bod cyfle i ddysgwyr barhau ar eu taith i gaffael sgiliau Cymraeg yn y cyfnod ôl-16. Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26* yn ein hymrwymo i ehangu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a datblygu cynigion ar gyfer y Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg i osod y Coleg ar sail statudol.

Mater i'r Prif Weinidog fydd ystyried amserlen ar gyfer cyflwyno Bil fel rhan o'r Rhaglen Deddfwriaethol.

Byddwn yn ystyried gweithredu'r deddfwriaeth wrth i ni ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol.

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

Fe wnaethoch holi mwy am waith sydd ar y gweill i ddeall yn well sut mae'r Safonau wedi cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Rydw i'n awyddus i ystyried pob ymyrraeth gan y Llywodraeth drwy lens defnydd o'r Gymraeg. O ran y safonau'n benodol, rydw i wedi gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg wneud darn o waith ar 'daith iaith' defnyddwyr a sefydliadau.

Bydd yr wybodaeth hon yn fuddiol er mwyn deall yn well beth sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Rydw i'n awyddus i ddeall y rhwystrau a'r heriau o safbwynt y defnyddiwr a hefyd o safbwynt y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau yn unol â phob dosbarth o Safonau sy'n gymwys iddynt, fel gallwn wybod sut i helpu goresgyn y rhwystrau. Nid oes bwriad gennyf i osod unrhyw amodau ar y gwaith gan mai'r Comisiynydd sydd yn y lle gorau i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r gwaith.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r broses gyffredin o ystyried effaith deddfwriaeth. Bydd casgliadau'r gwaith hwn yn dylanwadu ar unrhyw safonau y byddwn yn eu paratoi yn y dyfodol.

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru**

Rydych yn holi am fanylion y £200,000 a gafodd ei neilltuo i'r Eisteddfod Genedlaethol o'r Gronfa Ymateb i COVID-19 ac am ei sefyllfa ariannol mwy hirdymor.

Mae trafodaethau'n parhau i ddigwydd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer trefnu a chynnal Eisteddfodau yng Ngheredigion yn 2022 a Llŷn ac Eifionydd yn 2023. Y bwriad yw defnyddio'r cyllid hwn yn bennaf ar gyfer cael tîm arbenigol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith. Fel y nodais, bydd rhan o'r cyllid hwn yn cefnogi cynhwysiant cymdeithasol a chymunedol ac yn creu cyfleoedd o'r newydd i ddenu cynulleidfaoedd nad ydynt fel arfer wedi bod yn mynychu'r Ŵyl bwysig hon.

Rydym ni'n cynnal trafodaethau cyson gyda'r Eisteddfod Genedlaethol er mwyn trafod eu gwaith a'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i gynnal y trafodaethau hyn ac yn ystyried pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Eisteddfod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Darpariaeth trochi hwyr**

Mae disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddiwallu'r galw am ddarpariaeth trochi hwyr yn eu siroedd. Mae'r anghenion hynny'n amrywio o sir i sir ac o'r herwydd, ceir modelau a threfniadau trochi gwahanol. Mae gan yr awdurdodau canlynol drefniadau sefydlog mewn lle i gynnig addysg drochi hwyr naill ai mewn canolfan neu uned ar safle'r ysgol, mewn safle yn annibynnol o'r ysgol neu drwy drefniant athrawon teithiol: Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Ceredigion, y Fflint, Wrecsam, Caerfyrddin, Penfro, Powys, Abertawe, Caerdydd, Bro Morgannwg, a Chasnewydd.

Ar 14 Medi eleni, fe wnes i gyhoeddi bod £2.2m ar gael i gefnogi cynlluniau trochi a throchi hwyr lleol. Rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan awdurdodau lleol, ysgolion, mudiadau Cymraeg a sefydliadau addysgol. Hysbyswyd pob cyfarwyddwr addysg ac uwch swyddog addysg o'r buddsoddiad ariannol drwy gysylltiadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, a thrwy gyswllt uniongyrchol â'r awdurdodau lleol eu hunain. Hwylusodd fy swyddogion yn Is-adran y Gymraeg ddwy sesiwn rithiol i swyddogion addysg yr awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ymarferwyr ysgol lle cafwyd cyflwyniadau gan gymheiriaid mewn siroedd eraill ar drefniadau trochi sydd eisoes yn bodoli, ac hefyd i drafod materion mwy ymarferol ynghylch y broses ymgeisio, monitro a gwerthuso. Mae pob sir wedi cael gwybod bod yr un cyfle ganddynt i ymgeisio am hyd at £100,000 o gyllid drwy gwblhau ffurflen Mynegi Diddordeb.

Rydym wedi derbyn ceisiadau gan y mwyafrif o siroedd ac maent wedi cael eu hasesu. Rwy'n edrych ymlaen at allu cyhoeddi canlyniad y broses honno yn fuan iawn.

Rydw i'n hyderus y bydd ein hawdurdodau lleol a'u partneriaid yn manteisio ar y cyfle hwn i ehangu darpariaethau trochi hwyr cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a chanolfannau. Rydw i'n gweld hyn fel cam pwysig yn ein hymateb i'r heriau yn sgil COVID-19. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi dysgwyr sydd ar lwybr addysgol i fod yn siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chefnogi dilyniant ieithyddol yng ngoleuni COVID-19 ac rwy'n parhau i edrych ymlaen at weld cynlluniau cyffrous, arloesol a phwysig yn cael eu datblygu dros y flwyddyn i ddod.


**Materion eraill**

Rydych yn holi am fy ymateb i argymhellion yr adolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth ar 22 Hydref. Fe gyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig at Aelodau'r Senedd yn eu hysbysu o'r cyhoeddiad.

Rydych yn gofyn hefyd am fy ymateb i’r datganiad gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar yr Adroddiad Ehangu Mynediad. Mater i’r sefydliadau dan sylw yw’r adroddiad – yr hyn yr wyf i wedi ei bwysleisio droeon yn fy ngwaith yw fy mod i am i bawb ohonom berchnogi’n hiaith, gan ei bod yn perthyn i ni ei gyd. Mae ehangu’r niferoedd sy’n ymddiddori yn y Gymraeg, yn dysgu’n hiaith ac yn ei defnyddio o’r pwys mwyaf i fi.

Yn ein dogfen a gyhoeddais i ym mis Gorffennaf, gyda’n Rhaglen Waith 5 mlynedd (*Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: ymateb y* llywodraeth), fe ymatebais i argymhelliad gan Is-grŵp Cynyddu Defnydd y Gymraeg, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg (a fu’n llywio’r ymchwil ac yn creu argymhellion ar ei sail) ynghylch Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru. Rydw i’n edrych ymlaen at gydweithio gyda’r ddau sefydliad dros y pum mlynedd nesaf er mwyn deall sut mae modd i ni weithio mewn partneriaeth i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

# Eitem 7.1

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon